# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer talu cymorth (sy'n cydategu cymorth yr UE) ar gyfer cyflenwi llaeth i blant ysgolion cynradd.

Mae'r cymorth i'w dalu gan y Bwrdd Ymyrraeth ar ran y Cynulliad.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Nodyn Esboniadol**

Mae cyfeiriad at rifau'r rheoliadau yn dechrau gyda Rheoliad 6. Efallai y byddai cynnwys rhifau'r rheoliadau perthnasol ym mharagraffau blaenorol y Nodyn wedi bod o gymorth.

**Y Testun Cymraeg**

> Yn y testun Cymraeg, "ceisydd" yw "claimant". Er hynny, awgrymir y byddai "hawliwr" wedi bod yn fwy priodol i adlewyrchu'r ffaith bod yna, os yw'r amodau'n cael eu bodloni, hawl i gael y grant.

Gellid bod wedi drafftio’r diffiniad o “y costau gweddilliol” mewn ffurf a fyddai’n haws i’w deall.

Yn Rheoliad 3 dylid bod wedi mewnosod “ac” o flaen yr ail “sy’n”.

**Mick Bates AM**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

13 Chwefror 2001